| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **12 RHAGFYR, 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **AROLWG Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU – ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL 2018 – CYNIGION DIWYGIEDIG** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYFLWYNO GWYBODAETH I AELODAU AR Y MATER** |

## 1.0 Arolwg 2018 O Etholaethau Seneddol – Cynigion Diwygiedig

Ym Medi 2016 cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru gynigion cychwynnol i leihau nifer yr etholaethau seneddol o 40 i 29. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Sir ar 18 Hydref, 2016.

Penderfynodd y Cyngor y dylid gwrthwynebu'r bwriad o greu etholaeth newydd Ynys Môn ac Arfon.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau, a gofynnwyd am sylwadau erbyn yr 11 Rhagfyr, 2017.

Ceir mynediad i'r ddogfen drwy'r linc isod:

http://bcomm-wales.gov.uk/2018-review/2018_revised_proposals?lang=cy

Mae'r cynigion yn cynnwys y bwriad i newid eto ffiniau'r etholaeth seneddol a chreu etholaeth sirol o'r canlynol:-

- Etholaeth bresennol Ynys Môn
- Wardiau Sir Gwynedd - Arllechwedd, Deiniol, Dewi, Marchog, Gerlan, Glyder, Hendre, Hirael, Garth, Menai, Ogwen, Pentir, Tregarth a Mynydd Llandegai a Y Felinheli
- Wardiau Sir Conwy – Bryn, Capelulo, Pandy a Pant yr Afon/Penmaenan

Mae'r cynigion diweddara yn effeithio ar 3 etholaeth seneddol bresennol sef, Ynys Môn, Arfon ac Aberconwy.

Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Ynys Môn a Fangor ar gyfer yr etholaeth newydd.

Gan nad yw'r Comisiwn yn derbyn sylwadau ar ôl yr 11 Rhagfyr, a gan fod y Cyngor yn cyfarfod ar y 12 Rhagfyr, paratowyd ymateb mewn ymgynghoriad â'r Arweinyddion Grŵp yn gwrthwynebu'r cynigion diwygiedig. Adroddir ar hyn ymhellach yng nghyfarfod o'r Cyngor.

## 2.0 Argymhelliad

Cadarnhau ymateb y Cyngor yn gwrthwynebu newid etholaeth Ynys Môn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**4/12/2017**